Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

Canllaw i bersonau a enwebwyd: cefnogi rheolwyr newydd y blynyddoedd

cynnar a gofal plant i gwblhau Fframwaith sefydlu Cymru Gyfan (AWIF) ar gyfer rheolwyr y

blynyddoedd cynnar a gofal plant

Canllawiau i bersonau a enwebwyd i gefnogi rheolwyr newydd y blynyddoedd cynnar a gofal plant i gwblhau Fframwaith sefydlu Cymru Gyfan (AWIF)

Cyhoeddwyd gyntaf: 25 February 2025
Diweddariad olaf: 9 November 2026

> Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf. Ewch i https://gofalcymdeithasol.cymru/cymwysterau-ac-ariannu/fframweithiau-sefydlu/fframwaith-sefydlu-rheolwyr-blynyddoedd-cynnar-gofal-plant/canllaw-personau-enwebwyd-rheolwyr-blynyddoedd-cynnar-awif am y fersiwn diweddaraf.

Noder - mae'r wybodaeth ganlynol ond yn berthnasol i bobl a ddechreuodd gwblhau'r Fframwaith sefydlu Cymru gyfan ar gyfer rheolwyr blynyddoedd cynnar a gofal plant cyn 9 Tachwedd 2026. Mae'r fframwaith bellach wedi'i ddiweddaru ac wedi'i ddisodli gan y Fframwaith dysgu ac ymsefydlu ar gyfer rheolwyr blynyddoedd cynnar a gofal plant.

Pam mae sefydlu yn bwysig?

Uchelgais Llywodraeth Cymru yw datblygu gweithlu gofal plant a chwarae medrus sy'n uchel ei barch fel proffesiwn a gyrfa o ddewis, ac sy'n cael ei gydnabod am y rôl hanfodol y mae'r sector yn ei chwarae wrth gefnogi datblygiad ein plant.

Fel rhan o gymorth hyfforddi ehangach, mae Cynllun Gweithlu Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar Llywodraeth Cymru yn disgwyl i bob lleoliad blynyddoedd cynnar ddarparu cyfnod sefydlu i weithwyr newydd. Dylai'r cyfnod sefydlu helpu gweithwyr i ddeall arfer sy'n canolbwyntio ar y plentyn a'r gwerthoedd sydd eu hangen i weithio yn y blynyddoedd cynnar.

O dan y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir i Blant hyd at 12 oed rhaid i weithwyr gwblhau, neu fod yn gweithio tuag at, hyfforddiant sefydlu sy'n berthnasol i'w rôl, gan gynnwys Fframwaith sefydlu Cymru gyfan.

Mae rhaglen sefydlu drylwyr a ystyriwyd yn ofalus yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd y gwasanaeth a ddarperir.

Mae cyfnod sefydlu yn sicrhau bod staff newydd yn deall pwysigrwydd arfer sy'n canolbwyntio ar y plentyn a'r gwerthoedd sy'n cefnogi gweithio yn y

blynyddoedd cynnar a gofal plant. Mae hefyd yn eu helpu i ymgartrefu a dod yn fwy effeithiol yn eu rôl.

Mae cyfnod sefydlu yn sicrhau bod staff yn gwybod beth yw eu rolau, yn ogystal â chyfyngiadau'r rôl. Gall gynyddu ymrwymiad gweithwyr a boddhad swydd a chael effaith gadarnhaol ar leihau trosiant staff.

Beth yw Fframwaith sefydlu Cymru gyfan (AWIF) ar gyfer rheolwyr blynyddoedd cynnar a gofal plant?

Mae Fframwaith sefydlu Cymru gyfan ar gyfer rheolwyr y blynyddoedd cynnar a gofal plant yn set o safonau a gymerwyd o ddeilliannau dysgu gorfodol Lefel 4 Paratoi ar gyfer Arwain a Rheoli a chymhwyster Lefel 5 Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant.

Mae'n nodi'r wybodaeth a'r arferion y dylai rheolwyr y blynyddoedd cynnar a gofal plant newydd eu dangos dros amser.

Mae dwy ran i'r AWIF:

Rhan A – safonau sefydlu ar sail gwybodaeth

Mae'r safonau sefydlu gwybodaeth yn cwmpasu'r holl gyfrifoldebau am arwain a rheoli gwasanaethau blynyddoedd cynnar a gofal plant. Mae hyn yn cynnwys:

- arwain arfer sy'n canolbwyntio ar y plentyn
- fframweithiau damcaniaethol ar gyfer arweinyddiaeth a rheolaeth

- deall sut i arwain a rheoli perfformiad tîm effeithiol.

Rhan B – safonau sefydlu ar sail cymhwysedd

Mae’r safonau sefydlu sy’n seiliedig ar gymhwysedd yn cwmpasu ystod eang o feysydd fel arfer proffesiynol, ac arwain a rheoli:

- arfer sy'n canolbwyntio ar y plentyn
- perfformiad tîm effeithiol
- ansawdd y gweithle neu'r lleoliad
- arfer sy'n hybu diogelu plant
- iechyd, diogelwch a diogeledd.

Pwy ddylai gwblhau'r AWIF?

Dylai pob rheolwr y blynyddoedd cynnar a gofal plant sy'n newydd yn eu swydd gwblhau'r AWIF fel cyfnod sefydlu cyffredinol i'w rôl.

Rydym yn argymell bod pob rheolwr yn cwblhau'r AWIF o fewn 12 mis i ddechrau rôl newydd. Bydd hyn yn rhoi’r cyfle iddynt roi eu dysgu ar waith a diweddaru eu gwybodaeth am fframweithiau deddfwriaethol, arfer sy’n seiliedig ar dystiolaeth a meysydd arbenigol.

Mae rheolwyr profiadol neu gymwys yn debygol o fod â rhywfaint o dystiolaeth eisoes o wybodaeth ac ymarfer trwy gymwysterau blaenorol a gwblhawyd neu gyflogaeth flaenorol, ond efallai y bydd angen mwy o gymorth ar reolwyr llai profiadol.

Gofynion ar gyfer arweinydd / rheolwr / person mewn rheolaeth Dechrau'n Deg

Ar gyfer staff mewn lleoliadau Dechrau'n Deg, mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i reolwyr gael profiad o weithio gyda phlant ifanc a meddu ar gymhwyster derbyniol fel yr amlinellir yn ein fframwaith cymhwyster ar gyfer Arweinydd / rheolwr / person mewn rheolaeth Dechrau'n Deg

Rhaid i'r bobl ganlynol gwblhau'r AWIF:

Unigolion sydd â **Diploma Lefel 5 FfCCh mewn Arweinyddiaeth ar gyfer Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant (Ymarfer Uwch) Cymru a Gogledd Iwerddon**. Rhaid i'r unigolion hyn gwblhau rhan A a rhan B o'r AWIF ar gyfer rheolwyr y blynyddoedd cynnar a gofal plant.

Unigolion sydd â **gradd dderbyniol a restrir ar y fframwaith cymhwyster**. Dim ond Rhan B o'r AWIF y mae angen i'r unigolion hyn ei chwblhau. Mae prifysgolion wedi diweddaru eu modiwlau i fodloni'r meini prawf Paratoi ar gyfer Arweinyddiaeth a Rheolaeth Lefel 4 sydd eu hangen ar gyfer rôl Rheolwr Dechrau'n Deg.

Rôl y rheolwr sy'n cwblhau'r AWIF

Y rheolwr

Dylai'r rheolwr sy'n cwblhau'r AWIF lenwi'r rhan A, rhan B neu'r ddwy, a defnyddio logiau cynnydd i ddogfennu eu tystiolaeth.

Maent yn gyfrifol am gynnwys eu tystiolaeth yn y logiau hyn i ddangos eu dealltwriaeth a'u sgiliau, yn unol â safonau AWIF.

Yn y logiau cynnydd, byddant yn nodi'n fanwl sut y maent wedi bodloni pob safon, gan ddefnyddio tystiolaeth megis trafodaethau, cyrsiau hyfforddi a gwblhawyd, a thystysgrifau o gymwysterau blaenorol.

Er enghraifft, gall rheolwyr sydd â **Diploma Lefel 5 FfCCh mewn Arweinyddiaeth ar gyfer Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant (Ymarfer Uwch)** fapio canlyniadau dysgu perthnasol o'r cymhwyster hwn i ddangos eu gwybodaeth a'u profiad.

Rydym wedi creu dogfen fapio y gallwch ei defnyddio: Cysylltu'r AWIF â Diploma Lefel 5 FfCCh mewn Arweinyddiaeth ar gyfer Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant (Ymarfer Uwch).

Rydym hefyd wedi creu canllaw i gefnogi rheolwyr i ganfod a chasglu tystiolaeth i'w ddefnyddio gyda'r AWIF ar gyfer rheolwyr y blynyddoedd cynnar a gofal plant.

Gall rheolwyr hefyd ddefnyddio ein gweithlyfr gwybodaeth AWIF Rhan A i lenwi unrhyw fylchau yn eu gwybodaeth. Gallant gwblhau amrywiaeth o weithgareddau i ddangos bod ganddynt y wybodaeth angenrheidiol, a gallant gyrchu adnoddau a chysylltiadau ar gyfer astudio ymhellach.

Gall rheolwyr hefyd ddefnyddio'r canllaw cymhwysedd rhan B i roi enghreifftiau o sut y gallant gasglu darnau ymarferol o dystiolaeth, i ddangos eu sgiliau rheoli yn eu rôl.

Cymeradwyo'r safonau

Unwaith y bydd y rheolwr wedi cynnwys ei dystiolaeth yn y cofnodion cynnydd, bydd angen person a enwebwyd arno i adolygu a chadarnhau ei fod wedi bodloni pob safon.

Gall y person a enwebwyd ychwanegu sylwadau byr yn y blwch a ddarparwyd, gan esbonio pam eu bod yn credu bod y rheolwr wedi cyrraedd y safon honno. Dylai'r rheolwr a'r person a enwebwyd lofnodi a dyddio pob cofnod i gwblhau'r broses gymeradwyo.

Rhaid i'r person a enwebwyd sy'n gyfrifol am gymeradwyo'r safonau:

- meddu ar wybodaeth ymarferol o'r safonau sefydlu y maent yn eu hadolygu
- bod yn fedrus yn y maes y maent yn ei gadarnhau
- bod yn gyfarwydd ag arfer y rheolwr

Gall y person a enwebwyd fod yn amrywiaeth o bobl, fel yr Unigolyn Cyfrifol, arweinydd datblygu ymarfer neu reolwr arall sy’n goruchwylio gwaith y rheolwr.

Rôl y person a enwebwyd

Y person a enwebwyd

Mae’r person a enwebwyd yn cefnogi’r rheolwr ac yn eu harwain trwy ran A a B o’u AWIF, ac yn adolygu ac yn cadarnhau eu bod wedi bodloni’r safonau.

Cesglir tystiolaeth i gwblhau'r logiau cynnydd o ystod o ddulliau asesu. Gellir defnyddio hwn i farnu dealltwriaeth y rheolwr o’i rôl, ei gyfrifoldebau a’i ymarfer.

Dyma'r mathau o dystiolaeth y gellir eu defnyddio i gefnogi'r AWIF:

- cwblhau'r llyfrau gwaith
- cwestiynau dilynol
- holi ysgrifenedig neu lafar
- goruchwyliaeth
- cyfarfodydd tîm
- aseiniadau
- astudiaethau achos gyda chwestiynau
- cyflwyniadau
- profion
- arsylwi ymarfer yn uniongyrchol
- adborth gan eraill – er enghraifft, unigolion, teuluoedd, gofalwyr neu weithwyr eraill
- adroddiadau hunan-asesu neu fyfyriol
- cwblhau prawf
- cwblhau gweithdrefnau sefydlu sefydliadol
- cyfraniadau gan ddarparwyr dysgu
- myfyrio ar bresenoldeb hyfforddiant tystiolaeth o ddysgu neu gymwysterau achrededig.

Mae gennym adnoddau i helpu person(au) a enwebwyd i gefnogi eu rheolwyr:

- Llyfr gwaith atebion enghreifftiol,, sy'n cynnwys enghreifftiau o atebion rhan A o'r gweithgareddau a osodwyd yn y llyfrau gwaith.

- Canllawiau i bersonau a enwebwyd sy’n cynnwys enghreifftiau o ba fath o dystiolaeth y gellir ei chasglu ac enghreifftiau ar gyfer rhan B o arsylwadau a chynnyrch gwaith person a enwebwyd.

Llofnodi'r dystysgrif gwblhau

Dylai'r rheolwr newydd a'r person a enwebwyd lofnodi'r dystysgrif cwblhau llwyddiannus. Mae angen i'r person a enwebwyd ddangos ei fod wedi dilyn proses gref i fodloni'r safonau sefydlu. Weithiau bydd gan y rheolwr berson(au) a enwebwyd gwahanol drwy gydol y daith sefydlu.

Cysylltu'r AWIF â datblygiad proffesiynol parhaus (DPP)

Mae'r AWIF yn cynnwys set o safonau y cytunwyd arnynt ar gyfer rheolwyr y blynyddoedd cynnar a gofal plant. Gall rheolwyr hefyd ei ddefnyddio fel offeryn i'w cefnogi os oes ganddynt gymwysterau hŷn, neu os oes angen uwchsgilio neu ddiweddaru eu hymarfer.

Adnoddau i helpu rheolwyr

Mae gan y ddau gymhwyster isod unedau sy'n cael eu hadlewyrchu yn yr AWIF ar gyfer rheolwyr blynyddoedd cynnar:

- Lefel 4 Paratoi ar gyfer Arweinyddiaeth a Rheolaeth
- Lefel 5 Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer

Rydym wedi cymryd y canlyniadau dysgu gorfodol o bob uned ac wedi defnyddio'r rhain fel y safonau sefydlu.

Rydym wedi cario'r canlyniadau dysgu hyn yn y safonau sefydlu i mewn i'r logiau cynnydd, i'r adran lle mae'n dweud '*mae hyn yn golygu bod gennyf y ddealltwriaeth a'r gallu i...*' Nid ydym yn disgwyl i'r rheolwyr gael eu harwain

drwy bob un o’r rhain yn fanwl, ond bydd yn rhoi syniad iddynt o’r dystiolaeth sydd ei hangen ar gyfer y mathau o wybodaeth ac ymddygiadau.

Gall rheolwyr hefyd ddefnyddio gweithlyfr gwybodaeth AWIF i'w helpu i lenwi'r bylchau yn eu gwybodaeth. Mae ganddo amrywiaeth o weithgareddau y gallant eu gwneud i ddangos bod ganddynt y wybodaeth angenrheidiol.

Gallant hefyd ddefnyddio’r llawlyfr sgiliau cymhwysedd i roi enghreifftiau o sut y gallant gasglu darnau ymarferol o dystiolaeth i ddangos eu sgiliau rheoli yn eu rôl.

Cysylltwch â ni

Os oes gennych gwestiwn neu os na allwch ddod o hyd i'r hyn yr ydych yn chwilio amdano, cysylltwch â ni.

Os oes gennych staff sydd angen, neu eisiau gwneud yr AWIF ar gyfer rheolwyr y blynyddoedd cynnar a gofal plant fel rhan o'r DPP neu eu QCF neu rhai graddau sy'n cael eu derbyn, gallan nhw gofrestru ar ein ffurflen gofrestru. Bydd modd ini gysylltu â unigolion i gynnig cymorth a chyngor i gefnogi arweinwyr awdurdodau lleol.

Os oes gennych unrhyw adborth am y fframwaith, rhowch wybod ini ar ein ffurflen adborth.

Cynnwys cysylltiedig

- Logiau cynnydd rhan A
- Logiau cynnydd rhan B
- Esiamplau o logiau cynnydd i bersonau a enwebwyd

- Rhan A: Llyfr gwaith gwybodaeth (i'r rheolwr)
- Rhan A: Llyfr gwaith gwybodaeth (atebion sampl) (ar gyfer y person a enwebwyd)
- Rhan B: Arweinlyfr sgiliau cymhwysedd (ar gyfer y rheolwr)
- Rhan B: Arweinlyfr sgiliau cymhwysedd (ar gyfer y person a enwebwyd)
- Amrywiaeth o dystiolaeth ar gyfer Fframwaith sefydlu Cymru gyfan (FfSCG) o ran y blynyddoedd cynnar a gofal plant
- Tystysgrif cwblhau llwyddiannus
- Cysylltu'r AWIF â Diploma Lefel 5 FfCCh mewn Arweinyddiaeth ar gyfer Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant (Ymarfer Uwch)

Canllaw i berson(au) a enwebwyd rheolwyr Dechrau'n Deg am yr AWIF i reolwyr blynyddoedd cynnar a gofal plant

> - Gweld trawsgrifiad
>
>   1
>
>   00:00:00,625 --> 00:00:06,028
>
>   Helo pawb, fy enw i yw Rachel
>
>   Williams a dw i'n Swyddog Dysgu a Datblygu
>
>   2

00:00:06,033 --> 00:00:11,133

o fewn y tîm blynyddoedd cynnar a gofal plant yma yng Ngofal Cymdeithasol Cymru.

3

00:00:11,133 --> 00:00:14,533

Ein nod yw gwneud gwahaniaeth cadarnhaol

i'r sector blynyddoedd cynnar

4

00:00:14,533 --> 00:00:20,133

a gofal plant yng Nghymru drwy gefnogi'r

gweithlu mewn meysydd fel datblygu cymwysterau,

5

00:00:20,133 --> 00:00:24,274

sesiynau hyfforddi, datblygu adnoddau

fel deunyddiau recriwtio

6

00:00:24,274 --> 00:00:28,743

gweithgareddau e-ddysgu a gweithredu

fframweithiau ymsefydlu.

7

00:00:29,029 --> 00:00:32,949

Mae Fframwaith Sefydlu Cymru

Gyfan ar gyfer rheolwyr blynyddoedd cynnar

8

00:00:32,949 --> 00:00:38,405

yn newydd sbon. Fe'i lansiwyd ar

28ain o Dachwedd yn ein cynhadledd genedlaethol

9

00:00:38,405 --> 00:00:42,042

eleni gan y Gweinidog Plant a

Gofal Cymdeithasol,

10

00:00:42,083 --> 00:00:45,211

i gefnogi rheolwyr newydd i

ymgartrefu yn eu rolau

11

00:00:45,211 --> 00:00:49,781

gan eu helpu i ddatblygu'r sgiliau

sydd eu hangen arnynt i gefnogi eu timau

12

00:00:49,800 --> 00:00:52,800

i gynnig y safonau uchaf o ymarfer, gofal

ac addysg

13

00:00:52,886 --> 00:00:54,822

sy'n canolbwyntio ar y plentyn.

14

00:00:54,833 --> 00:00:59,900

Felly, rydyn ni wedi rhoi'r fideo

byr yma at ei gilydd i esbonio beth ydy'r fframwaith,

15

00:01:00,060 --> 00:01:04,829

pwy dylai ei gwblhau a sut y gall

unigolion fel chi orau gefnogi rheolwyr

16

00:01:04,833 --> 00:01:06,433

wrth ei gwblhau.

17

00:01:07,700 --> 00:01:11,300

Uchelgais Llywodraeth Cymru yw

datblygu gweithlu gofal plant

18

00:01:11,300 --> 00:01:15,600

a chwarae medrus sy’n cael ei

werthfawrogi’n fawr, ac felly mae

19

00:01:15,600 --> 00:01:19,466

gweithwyr neu rheolwyr newydd yn

camu i fyny i rolau arweinyddiaeth

20

00:01:19,766 --> 00:01:22,366

yn dipyn o newid,

gan ysgwyddo cyfrifoldeb

21

00:01:22,366 --> 00:01:26,233

ychwanegol wrth ddysgu gwybodaeth

a sgiliau newydd yn y gwaith.

22

00:01:27,900 --> 00:01:32,100

Proses sefydlu gryf yw'r broses

sefydlu i helpu'r rheolwyr newydd i

23

00:01:32,100 --> 00:01:36,600

ddeall eu rôl a dysgu'r gwerthoedd

a disgwyliadau sy'n hanfodol iddyn nhw.

24

00:01:37,533 --> 00:01:41,200

Bydd yn eu helpu i fagu hyder wrth

arwain ymarfer sy'n canolbwyntio

25

00:01:41,200 --> 00:01:45,600

ar blant, cefnogi perfformiad

tîm, a rheoli gweithrediadau

26

00:01:45,600 --> 00:01:47,266

eu lleoliad o ddydd i ddydd.

27

00:01:48,266 --> 00:01:52,366

Mae hefyd yn cefnogi eu twf

proffesiynol ac yn cynyddu boddhad

28

00:01:52,366 --> 00:01:56,633

swydd, lle byddant yn fwy tebygol

o deimlo eu bod yn ymgysylltu ac

29

00:01:56,633 --> 00:01:58,633

yn parhau i ymrwymo i’w gwaith.

30

00:01:59,866 --> 00:02:03,500

Felly mae’n hollbwysig eu bod mewn

sefyllfa lle y gallwn gefnogi’r

31

00:02:03,500 --> 00:02:07,500

rheolwyr newydd fel y gallant

arwain eu tîm i ddarparu

32

00:02:07,500 --> 00:02:09,466

gofal o ansawdd uchel i blant.

33

00:02:11,666 --> 00:02:16,600

Mae Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan yn

seiliedig ar set o wybodaeth hanfodol

34

00:02:16,600 --> 00:02:20,533

a safonau ymarferol sydd eu hangen ar

gyfer rheolwyr y blynyddoedd cynnar a

35

00:02:20,533 --> 00:02:26,433

gofal plant. Er mwyn sicrhau cysondeb

ar draws y rôl rheoli yn y sector,

36

00:02:26,766 --> 00:02:29,866

cymerwyd y safonau sefydlu

sy’n ffurfio’r fframwaith hwn

37

00:02:30,100 --> 00:02:34,333

o ganlyniadau dysgu cymwysterau

presennol Lefel 4 a Lefel 5

38

00:02:34,366 --> 00:02:39,433

Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad

Plant, ac mae hyn yn golygu bod

39

00:02:39,433 --> 00:02:43,833

y deilliannau dysgu neu’r safonau

sefydlu hyn yr un fath yn union.

40

00:02:44,433 --> 00:02:47,200

Ond mae’r ffordd y mae fframwaith

sefydlu’r cymwysterau wedi’i

41

00:02:47,200 --> 00:02:49,166

gwblhau yn hollol wahanol.

42

00:02:50,066 --> 00:02:54,033

'Dw i ddim am siarad am y cymwysterau

heddiw gan y byddaf yn ymdrin â'r

43

00:02:54,033 --> 00:02:58,000

wybodaeth yma mewn sesiynau eraill,

ond y ffordd y gellid gwneud

44

00:02:58,000 --> 00:03:03,000

y fframwaith ymsefydlu yw drwy

ddefnyddio dull cyfannol, gan ddod o

45

00:03:03,000 --> 00:03:05,800

gefndir blynyddoedd cynnar

lle y byddwn yn ymgymryd ag

46

00:03:05,800 --> 00:03:06,900

arsylwadau plant.

47

00:03:07,066 --> 00:03:10,266

Rydym yn arsylwi datblygiad

plant dros yr holl feysydd

48

00:03:10,266 --> 00:03:11,600

datblygu yn gyfannol.

49

00:03:12,033 --> 00:03:16,433

Rydym yn edrych ar y plentyn cyfan,

yn tynnu ar nifer o sgiliau y gall

50

00:03:16,433 --> 00:03:20,400

y plentyn ei wneud, ac felly mae’r

broses yma yr un fath.

51

00:03:21,500 --> 00:03:25,000

Felly bydd yn golygu edrych

ar ddarnau o dystiolaeth ar y

52

00:03:25,000 --> 00:03:29,300

swydd a gellir eu mapio ar draws

sawl safon sefydlu i ddangos

53

00:03:29,300 --> 00:03:30,800

cymhwysedd dros amser.

54

00:03:31,400 --> 00:03:35,133

Mae Fframwaith Sefydlu Cymru

Gyfan yn cynnwys dwy brif rhan.

55

00:03:35,533 --> 00:03:39,733

Mae Rhan A yn ymdrin â safonau

sy’n seiliedig ar wybodaeth sy’n

56

00:03:39,733 --> 00:03:44,733

cynnwys pynciau fel deall sut i arwain ymarfer

sy’n canolbwyntio ar blant,

57

00:03:44,733 --> 00:03:49,166

deall damcaniaethau arweinyddiaeth gwahanol,

a deall rheoli perfformiad tîm.

58

00:03:50,233 --> 00:03:54,566

Mae Rhan B yn canolbwyntio ar

sgil y rheolwyr lle bydd angen

59

00:03:54,566 --> 00:03:59,220

iddynt ddangos y gallant arwain a

rheoli ymarfer sy’n canolbwyntio ar y plentyn,

60

00:03:59,220 --> 00:04:03,019

perfformiad tîm effeithiol, ansawdd y lleoliad,

61

00:04:03,019 --> 00:04:07,186

ac ymarfer sy’n hyrwyddo diogelu, iechyd a diogelwch.

62

00:04:07,186 --> 00:04:10,204

'Dw i'n gwybod bod y sleid yma

ychydig bach yn fach,

63

00:04:10,204 --> 00:04:12,700

ac felly mi wnai siarad drwyddo fo efo chi.

64

00:04:13,300 --> 00:04:16,866

Ond rydym wedi rhoi'r ffeithlun hwn yma

i ddangos yr hyn a argymhellir ar

65

00:04:16,866 --> 00:04:21,603

gyfer arfer da a'r hyn sy'n orfodol

ar gyfer ymarfer.

66

00:04:21,603 --> 00:04:24,666

Ym mhob lleoliad blynyddoedd cynnar a gofal plant,

67

00:04:24,700 --> 00:04:28,633

ac eithrio Dechrau’n Deg,

mae’n ofynnol i reolwyr feddu ar

68

00:04:28,666 --> 00:04:30,566

gymhwyster Lefel 3 neu uwch.

69

00:04:31,300 --> 00:04:34,300

Gall rheolwyr newydd sydd â

chymhwyster Lefel 3 gwblhau’r

70

00:04:34,300 --> 00:04:39,400

fframwaith sefydlu os ydynt yn dymuno

i’w helpu i’w cefnogi yn eu rôl.

71

00:04:40,466 --> 00:04:44,046

Fodd bynnag, argymhellir eu bod

yn ymgymryd â chymhwyster

72

00:04:44,046 --> 00:04:46,166

Lefel 4 a Lefel 5 llawn.

73

00:04:46,900 --> 00:04:50,633

Gellir dal defnyddio'r fframwaith

sefydlu fel offeryn cefnogol

74

00:04:50,633 --> 00:04:53,833

i'w helpu wrth iddynt weithio

tuag at gwblhau'r cymhwyster.

75

00:04:56,466 --> 00:04:59,733

Mae'n rhaid i reolwyr o fewn

lleoliadau Dechrau'n Deg feddu ar

76

00:04:59,733 --> 00:05:05,000

wybodaeth, sgiliau ac ymddygiadau

penodol i fod yn y rôl arweinyddiaeth

77

00:05:05,000 --> 00:05:10,366

a rheolaeth honno, ac felly dim ond y

cymwysterau sy’n meddu ar yr elfennau

78

00:05:10,366 --> 00:05:14,000

penodol hyn yw’r cymwysterau hynny

sydd eisoes yn cael eu derbyn ar

79

00:05:14,000 --> 00:05:15,200

y fframwaith cymwysterau.

80

00:05:16,566 --> 00:05:20,633

Rhain yw unigolion sydd newydd

gwblhau cymwysterau presennol

81

00:05:20,633 --> 00:05:25,400

Paratoi ar gyfer Arweinyddiaeth Lefel

4 ac Ymarfer Rheoli Lefel 5.

82

00:05:26,000 --> 00:05:29,300

Ni fydd angen iddynt wneud y

Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan

83

00:05:29,333 --> 00:05:33,366

gan fod y cymhwyster yn gyfredol

ac mae'r safonau union yr un fath.

84

00:05:35,400 --> 00:05:38,900

Argymhellir bod unigolion sydd

â chymhwyster derbyniol o dan

85

00:05:38,900 --> 00:05:42,966

gymwysterau blaenorol ar gyfer

rheolwyr Dechrau’n Deg yn gwneud y

86

00:05:42,966 --> 00:05:47,600

fframwaith sefydlu gan y byddai’r

cymwysterau hyn wedi’u cwblhau gan

87

00:05:47,600 --> 00:05:49,433

yr unigolion dipyn o amser yn ôl.

88

00:05:50,566 --> 00:05:54,600

Efallai y bydd gan yr unigolion hyn

lawer o brofiad arwain a rheoli y

89

00:05:54,600 --> 00:05:56,333

gellir eu defnyddio fel tystiolaeth.

90

00:05:59,200 --> 00:06:02,666

Yn ddiweddar, rydym wedi bod yn

gweithio gyda'r sector i edrych os

91

00:06:02,666 --> 00:06:06,766

oes na fwy o gymwysterau y gallwn

eu hychwanegu at y fframwaith

92

00:06:06,766 --> 00:06:10,700

cymwysterau ar gyfer

rheolwyr Dechrau’n Deg

93

00:06:10,700 --> 00:06:15,100

a chydnabuom y gellid ystyried rhai cymwysterau

pe baent yn cael eu cryfhau gyda

94

00:06:15,100 --> 00:06:18,900

fframwaith sy’n ymdrin â'r bylchau

yn y safonau arweinyddiaeth

95

00:06:18,900 --> 00:06:20,333

a rheoli penodol hynny.

96

00:06:21,233 --> 00:06:24,766

Felly drwy greu’r fframwaith,

byddwn hefyd yn gallu cynnwys

97

00:06:24,800 --> 00:06:29,900

Diploma Lefel 5 QCF mewn Gofal,

Dysgu a Datblygiad Plant a

98

00:06:29,933 --> 00:06:31,166

graddau penodol hefyd.

99

00:06:33,400 --> 00:06:38,066

Felly mae’r Llwybr Ymarfer Uwch

QCF bellach ar ein fframwaith

100

00:06:38,366 --> 00:06:41,200

a byddai’n cael ei dderbyn pe

bai rheolwr yn cwblhau Rhan

101

00:06:41,200 --> 00:06:44,720

A a Rhan B o Fframwaith

Sefydlu Cymru Gyfan.

102

00:06:44,720 --> 00:06:46,133

Hefyd,

103

00:06:46,166 --> 00:06:49,900

mae rhai graddau bellach ar ein

fframwaith cymwysterau oherwydd bod

104

00:06:49,900 --> 00:06:54,033

y prifysgolion hyn yn ymgorffori'r

safonau Lefel 4 Paratoi

105

00:06:54,066 --> 00:06:56,900

ar gyfer Arweinyddiaeth a

Rheolaeth yn eu modiwlau.

106

00:06:58,000 --> 00:07:01,266

O ganlyniad, bydd yr unigolion

hyn wedi cael Rhan A

107

00:07:01,300 --> 00:07:02,500

o'r fframwaith yn barod.

108

00:07:03,200 --> 00:07:07,233

Felly bydd gofyn i'r rhai sydd

â graddau cymeradwy gwblhau Rhan B

109

00:07:07,466 --> 00:07:10,533

o Fframwaith Sefydlu Cymru

Gyfan i fynd i'r afael â'r

110

00:07:10,533 --> 00:07:12,066

bylchau hyn yn eu sgiliau.

111

00:07:13,600 --> 00:07:16,366

Mae hyn i gyd yn cael ei

ddangos ar y sleid hon.

112

00:07:16,900 --> 00:07:20,166

Os oes angen eglurhad pellach

arnoch, ewch i’r dudalen

113

00:07:20,200 --> 00:07:21,600

Fframwaith Cymwysterau.

114

00:07:24,700 --> 00:07:28,833

Bydd y rheolwr yn gyfrifol am

gwblhau ei fframwaith sefydlu ei hun.

115

00:07:29,200 --> 00:07:33,433

Byddant yn casglu amrywiaeth o

dystiolaeth yn y gwaith i fapio

116

00:07:33,433 --> 00:07:35,233

yn erbyn eu safonau sefydlu.

117

00:07:35,833 --> 00:07:39,700

Rydym yn galw’r rhain yn logiau

cynnydd oherwydd eu bod yn cofnodi

118

00:07:39,733 --> 00:07:43,000

eu cynnydd wrth iddynt weithio

trwy eu taith, a byddant yn

119

00:07:43,000 --> 00:07:46,600

manylu ar sut y maent wedi

bodloni pob safon ymsefydlu.

120

00:07:48,100 --> 00:07:52,133

Felly ar y sleid hon,

gallwch weld sgrinlun o log cynnydd

121

00:07:52,133 --> 00:07:56,433

gwag lle gallwch weld y safon sefydlu

sydd angen ei wneud mewn ysgrifennu

122

00:07:56,433 --> 00:07:59,400

beiddgar, ond yn y golofn nesaf,

123

00:07:59,566 --> 00:08:01,933

mae ychydig mwy o

wybodaeth o’r hyn y mae’r safon

124

00:08:01,933 --> 00:08:03,766

sefydlu honno yn ei olygu.

125

00:08:04,666 --> 00:08:10,066

Bydd yn cwmpasu ehangder a dyfnder y

safon sefydlu ac felly bydd y rheolwr

126

00:08:10,066 --> 00:08:14,300

yn gwybod yn union beth sydd angen ei

gwmpasu cyn y gellir ei gymeradwyo.

127

00:08:15,400 --> 00:08:19,633

Byddant yn cael cyfle i esbonio sut y

maent wedi bodloni’r safon ymsefydlu

128

00:08:19,666 --> 00:08:21,466

drwy gyfeirio at eu tystiolaeth.

129

00:08:22,000 --> 00:08:26,300

Byddaf yn cyffwrdd ar hyn ar

y sleid nesaf. Cyn i’r rheolwr

130

00:08:26,333 --> 00:08:28,166

ddechrau ar eu fframwaith sefydlu,

131

00:08:28,400 --> 00:08:32,933

bydd angen iddynt gael mentor,

a mater i'r awdurdodau lleol fydd

132

00:08:32,933 --> 00:08:34,600

nodi mentor penodedig.

133

00:08:35,466 --> 00:08:37,566

Mae rôl y mentor yn un hyfryd,

134

00:08:37,966 --> 00:08:40,233

nhw fydd y person sy’n

cefnogi’r rheolwr.

135

00:08:41,100 --> 00:08:44,866

Gall y mentor gefnogi’r rheolwr i

ddatblygu eu gwybodaeth a’u sgiliau

136

00:08:45,500 --> 00:08:50,800

eu helpu i gasglu tystiolaeth,

adolygu tystiolaeth y rheolwyr a

137

00:08:50,800 --> 00:08:55,280

llofnodi eu safonau.

Gellir gwneud hyn mewn sawl ffordd.

138

00:08:55,280 --> 00:08:57,000

Bosib gwelwch y

139

00:08:57,066 --> 00:09:00,600

gellir rhoi llawer o gefnogaeth pan

ddaw'r mentor i wneud ymweliadau

140

00:09:00,600 --> 00:09:05,566

galw heibio, hwyrach bydd hynny

bob ychydig wythnosau neu fwy.

141

00:09:06,366 --> 00:09:08,401

Fodd bynnag, cytunir ar hyn.

142

00:09:08,401 --> 00:09:13,440

Rhaid i’r mentor gael y wybodaeth weithredol o’r safonau sefydlu,

143

00:09:13,440 --> 00:09:18,558

bod yn gymwys yn alwedigaethol gan adolygu ac yn llofnodi

i ffwrdd,

144

00:09:18,558 --> 00:09:21,100

a bod yn gyfarwydd â gwaith y rheolwr.

145

00:09:23,433 --> 00:09:27,700

Felly beth yn union y gall y

rheolwr ei gasglu fel tystiolaeth

146

00:09:27,700 --> 00:09:29,033

i’r mentor ei lofnodi?

147

00:09:30,033 --> 00:09:32,300

Cwestiwn llafar neu ysgrifenedig.

148

00:09:33,000 --> 00:09:36,500

Efallai y byddwch yn gofyn

iddynt sut maent wedi adolygu neu

149

00:09:36,500 --> 00:09:40,666

ddiweddaru polisiau'r lleoliad,

sut maent wedi cynnal driliau tân,

150

00:09:40,700 --> 00:09:42,533

neu drefnu hyfforddiant i staff.

151

00:09:43,100 --> 00:09:44,300

Cynhyrchion gwaith.

152

00:09:44,800 --> 00:09:49,100

Efallai y byddant yn cyfeirio at

gynlluniau gweithgaredd neu galendrau

153

00:09:49,100 --> 00:09:53,533

y maent wedi'u gweithdrefnu ar gyfer trefnu,

sleidiau cyflwyno ar gyfer cyfarfod

154

00:09:53,600 --> 00:09:57,833

staff, cylchlythyrau neu gyfathrebu

ar y cyfryngau cymdeithasol,

155

00:09:58,333 --> 00:10:02,333

neu hyd yn oed sut maen nhw’n rheoli

perfformiad staff gan ddefnyddio

156

00:10:02,333 --> 00:10:04,666

arfarniadau a gosod nodau staff.

157

00:10:05,833 --> 00:10:08,900

Datganiadau personol a

chyfrifon adfyfyriol.

158

00:10:09,666 --> 00:10:13,133

Efallai y byddant yn penderfynu

myfyrio ar sefyllfa heriol

159

00:10:13,400 --> 00:10:14,633

fel eu bod wedi cofnodi

160

00:10:14,666 --> 00:10:16,066

cyfrif adfyfyriol.

161

00:10:16,566 --> 00:10:22,000

Gallai fod ar ffurf recordio llais

neu gyfrif ysgrifenedig megis delio

162

00:10:22,000 --> 00:10:26,333

â gwrthdaro neu storfa sydyn gan

staff a myfyrio ar sut y gwnaethant

163

00:10:26,333 --> 00:10:29,300

reoli’r sefyllfa a’r hyn y

gallent wella arno.

164

00:10:30,233 --> 00:10:31,900

Trafodaeth broffesiynol.

165

00:10:32,600 --> 00:10:36,166

Efallai y byddwch chi fel mentor am

wneud trafodaeth broffesiynol gyda

166

00:10:36,166 --> 00:10:40,900

nhw lle gallant drafod deinameg tîm

a sut mae eu harddull arweinyddiaeth

167

00:10:41,133 --> 00:10:46,000

a'u ffordd o gyfathrebu yn dylanwadu

ar berfformiad eu lleoliad i gyrraedd

168

00:10:46,000 --> 00:10:48,233

eu gweledigaeth a'u nodau o'r

lleoliad.

169

00:10:49,100 --> 00:10:53,833

Unwaith eto, gall hyn ei gefnogi

a’i storio yn rhywle, neu efallai y

170

00:10:53,833 --> 00:10:58,000

byddwch yn penderfynu gwneud testimoni

fach yn y log cynnydd i gofnodi

171

00:10:58,000 --> 00:11:01,493

bod y drafodaeth wedi digwydd a

beth gafodd ei drafod.

172

00:11:01,493 --> 00:11:03,166

Arsylwadau.

173

00:11:03,966 --> 00:11:07,933

Efallai y byddwch yn penderfynu

arsylwi rheolwr sy’n arwain cyfarfod

174

00:11:07,933 --> 00:11:12,233

staff, yn rhyngweithio â staff

a phlant, ac yn gyffredinol,

175

00:11:12,233 --> 00:11:14,700

sut mae rheolwr yn rheoli

gweithrediadau dydd i

176

00:11:14,700 --> 00:11:15,900

ddydd y lleoliad.

177

00:11:16,566 --> 00:11:19,866

Gallwch wneud hyn fel rhan o'ch

ymweliad monitro heb unrhyw ardal

178

00:11:19,866 --> 00:11:24,000

benodol i gwmpasu, neu efallai yr

hoffech weld rhywbeth penodol.

179

00:11:24,433 --> 00:11:28,233

Ond fe welwch bob amser y bydd

tystiolaeth naturiol yn disgyn allan

180

00:11:28,233 --> 00:11:33,433

ohoni, ac felly gellir mapio hyn i

mewn i sawl darn o'r safonau sefydlu.

181

00:11:34,200 --> 00:11:37,333

Efallai y byddwch yn cymryd rhai

nodiadau a bydd y rheolwyr yn

182

00:11:37,333 --> 00:11:38,733

mapio hyn i mewn eu hunain.

183

00:11:40,200 --> 00:11:42,400

Datganiadau a thystiolaeth tyst.

184

00:11:43,000 --> 00:11:47,033

Ie, gall unrhyw un helpu gyda

hyn ac mae hyn yn cael ei annog

185

00:11:47,033 --> 00:11:50,433

yn fawr oherwydd ei fod fel

cyfrif gwir am sefyllfa.

186

00:11:51,333 --> 00:11:56,133

Gall y rheolwr ofyn i aelod o staff

ysgrifennu datganiad bach am sut bu

187

00:11:56,133 --> 00:12:00,333

iddynt ddelio gyda sefyllfa fel y

broses recriwtio, er enghraifft,

188

00:12:00,533 --> 00:12:04,700

gan sicrhau dull seiliedig ar

werth, neu gallant gasglu

189

00:12:04,733 --> 00:12:06,600

adborth gan rieni a gofalwyr,

190

00:12:06,800 --> 00:12:10,800

os oes rhywbeth ynddo sy’n tynnu

sylw at y ffordd gadarnhaol y mae’r

191

00:12:10,800 --> 00:12:12,433

lleoliad yn cael ei reoli ganddynt.

192

00:12:13,400 --> 00:12:16,800

Gall hyn fod mewn adroddiad

Arolygiaeth Gofal Cymru.

193

00:12:18,800 --> 00:12:21,066

Cydnabyddiaeth o ddysgu blaenorol.

194

00:12:21,333 --> 00:12:23,333

Mae hwn yn un gwych i fapio.

195

00:12:23,600 --> 00:12:26,500

Gallant ddangos tystiolaeth o

hyfforddiant y maent wedi bod

196

00:12:26,500 --> 00:12:30,600

arno, cymwysterau y maent wedi'u

gwneud yn y gorffennol, a bydd y

197

00:12:30,600 --> 00:12:34,433

darn hwn o dystiolaeth yn

hanfodol i'r ymarferwyr QCF uwch.

198

00:12:35,600 --> 00:12:39,200

Bydd yr ymarferwyr uwch eisoes

wedi ymdrin â rhai o'r safonau

199

00:12:39,200 --> 00:12:41,866

sefydlu ar draws Rhan A a Rhan B.

200

00:12:42,433 --> 00:12:45,833

Felly rydym wedi llunio dogfen

adnoddau i chi fel mentoriaid

201

00:12:46,100 --> 00:12:49,500

i ddangos i chi beth sydd

wedi'i gynnwys a beth sydd heb.

202

00:12:52,066 --> 00:12:55,533

Llyfr gwaith Rhan A

ac arweinlyfr Rhan B.

203

00:12:56,100 --> 00:13:01,864

Rydym wedi datblygu llyfr gwaith

gwybodaeth y gall rheolwyr weithio trwyddo

204

00:13:01,864 --> 00:13:03,833

i ddatblygu eu gwybodaeth

neu gau bylchau yn eu gwybodaeth.

205

00:13:04,400 --> 00:13:08,033

Felly, os ydynt yn cael trafferth

dod o hyd i dystiolaeth i fapio

206

00:13:08,033 --> 00:13:12,433

eu gwybodaeth safonau ymsefydlu,

yna gallant gwblhau’r llyfr gwaith

207

00:13:12,633 --> 00:13:16,266

a bydd y gweithgareddau yn y llyfr

gwaith yn seiliedig ar weithgareddau

208

00:13:16,266 --> 00:13:18,566

ymarferol sy’n gysylltiedig â’u rôl.

209

00:13:19,566 --> 00:13:23,433

Hefyd, mae llwythi o adnoddau

ynddo i gefnogi eu gwybodaeth,

210

00:13:23,900 --> 00:13:27,933

dolenni i ddeddfwriaeth

berthnasol, fideos ar YouTube,

211

00:13:28,233 --> 00:13:29,833

erthyglau ac yn y blaen.

212

00:13:31,233 --> 00:13:35,400

Efallai y bydd gweithgaredd lle mae’n

rhaid iddynt asesu effeithiolrwydd

213

00:13:35,400 --> 00:13:38,866

eu polisi cydraddoldeb,

amrywiaeth a chynhwysiant,

214

00:13:39,333 --> 00:13:41,000

a gwneud newidiadau i'w wella.

215

00:13:41,666 --> 00:13:45,000

Neu efallai y bydd astudiaeth achos

yno a bydd angen iddynt weithio

216

00:13:45,000 --> 00:13:47,000

drwy’r broses gan ateb y cwestiynau.

217

00:13:48,266 --> 00:13:51,233

Felly byddan nhw’n cwblhau

ac yn gweithio drwy’r llyfr

218

00:13:51,233 --> 00:13:54,400

gwaith ac yn cyfeirio at hyn

o fewn eu logiau cynnydd.

219

00:13:55,100 --> 00:13:58,800

Mae yna weithgaredd ar gyfer

pob safon sefydlu yn Rhan A.

220

00:14:00,900 --> 00:14:04,400

Yn union fel adnodd arall ar

gyfer y mentoriaid ategol,

221

00:14:04,633 --> 00:14:08,933

rydym wedi datblygu llyfr gwaith ateb

enghreifftiol lle rydym wedi cymryd

222

00:14:08,933 --> 00:14:13,666

un gweithgaredd o bob adran o'r llyfr

gwaith a'i droi'n ateb enghreifftiol

223

00:14:13,666 --> 00:14:16,566

fel y gall mentoriaid ddefnyddio

hwn i weld beth yw pwrpas

224

00:14:16,566 --> 00:14:17,733

cwblhau'r gweithgaredd.

225

00:14:19,433 --> 00:14:23,266

Felly ar gyfer Rhan B,

rydym hefyd wedi creu llawlyfr

226

00:14:23,300 --> 00:14:27,266

sgiliau cymhwysedd i’w helpu i

ddeall pa fathau o dystiolaeth

227

00:14:27,266 --> 00:14:29,300

sydd yna a beth maen nhw'n ei olygu.

228

00:14:30,300 --> 00:14:32,800

Felly, yn eithaf tebyg i beth

'da ni newydd fynd trwyddo

229

00:14:32,800 --> 00:14:34,433

rwan, ond ychydig mwy manwl.

230

00:14:35,266 --> 00:14:39,100

Rydym hefyd wedi mynd ychydig

ymhellach ac wedi rhoi enghreifftiau

231

00:14:39,100 --> 00:14:43,233

o sut gellir casglu tystiolaeth

benodol mewn ffordd hawdd er mwyn

232

00:14:43,233 --> 00:14:45,400

bodloni’r safonau ymsefydlu honno.

233

00:14:46,866 --> 00:14:49,300

Er enghraifft,

gallai’r polisi cydraddoldeb,

234

00:14:49,300 --> 00:14:52,633

amrywiaeth a chynhwysiant,

a ddiweddarwyd ganddynt fod yn

235

00:14:52,633 --> 00:14:56,433

enghraifft o gynnyrch gwaith y

gallent ei fapio fel tystiolaeth yn

236

00:14:56,433 --> 00:14:58,400

un o’r safonau sefydlu yn y Rhan B,

237

00:14:58,700 --> 00:15:00,780

oherwydd eu bod yn gorgyffwrdd.

238

00:15:00,780 --> 00:15:05,740

A dyna beth 'da ni'n ei olygu wrth fapio drosodd i sawl safon.

239

00:15:05,740 --> 00:15:07,133

Unwaith eto,

240

00:15:07,166 --> 00:15:11,733

yn benodol ar gyfer mentoriaid,

rydym wedi creu adnodd arweinlyfr fel

241

00:15:11,733 --> 00:15:15,500

bod ganddynt yr holl wybodaeth yma

i’w cefnogi i gefnogi’r rheolwr.

242

00:15:16,833 --> 00:15:20,933

O ran y dogfennau cyfarwyddyd

ar gyfer rheolwyr a mentoriaid,

243

00:15:21,666 --> 00:15:25,100

ar y gwaelod yn yr atodiad,

rydym wedi rhoi enghraifft

244

00:15:25,133 --> 00:15:27,900

o arsylwi ac enghreifftiau

o gynhyrchion gwaith.

245

00:15:28,133 --> 00:15:32,100

Gall y rheolwr gyfeirio’r darnau hyn

o dystiolaeth i sawl rhan ar draws y

246

00:15:32,100 --> 00:15:36,966

safonau sefydlu ynghyd â chyfiawnhad

pam eu bod wedi bodloni’r safon.

247

00:15:37,566 --> 00:15:39,633

Felly mae’n offeryn defnyddiol iawn.

248

00:15:41,666 --> 00:15:46,200

Er ein bod wedi rhoi rhestr eithaf

helaeth, anogir y rheolwr i feddwl

249

00:15:46,200 --> 00:15:50,800

am ffyrdd arall y gallent gasglu eu

tystiolaeth, oherwydd efallai na fydd

250

00:15:50,800 --> 00:15:54,500

yr hyn yr ydym wedi awgrymu yn

berthnasol yw lleoliad neu rôl

251

00:15:54,500 --> 00:15:58,400

benodol, neu efallai bod ganddo’ch

ffordd well o gasglu tystiolaeth.

252

00:15:59,500 --> 00:16:03,533

Rwy’n gwybod pan wnes i rywbeth tebyg

fy hun yn y gorffennol, roedd yn well

253

00:16:03,533 --> 00:16:07,000

gennyf fi gasglu tystiolaeth fy

hun yn lle dod o hyd i dystiolaeth

254

00:16:07,033 --> 00:16:08,500

sydd wedi’i sgriptio o flaen llaw.

255

00:16:08,766 --> 00:16:09,933

Ac mae hynny’n iawn.

256

00:16:09,933 --> 00:16:11,966

Dyna beth rydym yn ei annog.

257

00:16:12,800 --> 00:16:16,300

Felly, er bod gan y fframwaith

sefydlu set o safonau,

258

00:16:16,333 --> 00:16:20,300

bydd rôl rheolwyr wrth gasglu

tystiolaeth yn bwrpasol iddyn nhw,

259

00:16:20,900 --> 00:16:24,500

ac felly mae'n gwneud y profiad

cyfan yn bersonol iawn a bydd yn

260

00:16:24,500 --> 00:16:29,200

rhoi ymdeimlad o berchnogaeth a

balchder iddyn nhw yn eu llwyddiant.

261

00:16:36,800 --> 00:16:37,566

Fel welwch chi,

262

00:16:37,600 --> 00:16:41,900

dyma enghraifft o log cynnydd

wedi’i gwblhau. Ond yn gyntaf

263

00:16:42,166 --> 00:16:45,333

'dw i eisiau dangos i chi beth mae’r colofnau

yn y log cynnydd yn ei olygu.

264

00:16:46,700 --> 00:16:48,533

Colofn deilliant dysgu.

265

00:16:49,200 --> 00:16:53,133

Dyma’r rhif rydym wedi defnyddio

i gyfeirio at y safon sefydlu.

266

00:16:54,900 --> 00:16:59,233

Mae’r colofn safonau sefydlu yn nodi

pa safon y mae'n rhaid i’r rheolwr

267

00:16:59,233 --> 00:17:03,766

ei chwmpasu, boed yn wybodaeth,

yn sgil, neu’n ymddygiad.

268

00:17:04,600 --> 00:17:08,466

Mae’r safonau hyn yn feincnod i

sicrhau y gall y rheolwr gyflawni

269

00:17:08,466 --> 00:17:10,200

ei gyfrifoldebau rheolaethol.

270

00:17:12,033 --> 00:17:13,133

Y colofn nesaf,

271

00:17:13,166 --> 00:17:17,200

lle dywed mae hyn yn golygu bod

gennyf ddealltwriaeth a’r gallu i.

272

00:17:18,100 --> 00:17:22,233

Dyma lle byddwn i’n gweld ehangder

a dyfnder y safonau sefydlu.

273

00:17:22,600 --> 00:17:26,500

Felly bydd yn helpu’r rheolwr i

ddeall beth mae’r safon sefydlu yn

274

00:17:26,500 --> 00:17:30,800

ei olygu, oherwydd gall y safon fod

yn eithaf cryno mewn gwirionedd.

275

00:17:32,166 --> 00:17:35,833

Bydd gwybod beth sydd angen iddyn nhw

gynnwys yn eu helpu i feddwl am

276

00:17:35,833 --> 00:17:39,900

yr holl ddarnau o dystiolaeth sydd

ganddynt i’w mapio yn yr adran hon.

277

00:17:41,100 --> 00:17:45,233

Yna, byddent yn barod i gofnodi eu

tystiolaeth a dweud sut y maent

278

00:17:45,233 --> 00:17:47,667

wedi cyrraedd y safon hon yn y golofn nesaf.

279

00:17:49,300 --> 00:17:53,300

Gallai hyn fod yn nifer o ddarnau

o dystiolaeth megis hyfforddiant,

280

00:17:53,300 --> 00:17:57,100

cynhyrchion gwaith, a / neu

cydnabod dysgu blaenorol,

281

00:17:57,100 --> 00:17:57,866

ac yn y blaen.

282

00:17:59,266 --> 00:18:03,566

Y colofn nesaf yw pan fydd y mentor

yn adolygu’r dystiolaeth ac yn gwneud

283

00:18:03,600 --> 00:18:08,666

sylwadau i roi adborth, ac unwaith y

bydd y cyfnod sefydlu wedi ei

284

00:18:08,666 --> 00:18:12,700

fodloni, bydd y rheolwr a’r

mentor yn llofnodi ac yn

285

00:18:12,700 --> 00:18:14,066

dyddio’r safon sefydlu.

286

00:18:15,966 --> 00:18:19,133

Gadewch i ni sgrolio lawr i

gael golwg ar safon sefydlu

287

00:18:19,133 --> 00:18:20,433

wedi’i gwblhau’n barod.

288

00:18:25,700 --> 00:18:28,900

Cafodd hwn ei greu yn arbennig

ar gyfer yr arddangosiad

289

00:18:28,900 --> 00:18:32,300

hwn, ond mae’r safonau

sefydlu yn rhai iawn.

290

00:18:33,200 --> 00:18:38,000

Mae hyn yn ymwneud â Rhan A

adran un sy’n arwain ymarfer

291

00:18:38,000 --> 00:18:43,066

sy’n canolbwyntio ar y plentyn.

Y deilliant dysgu yw rhif dau lle

292

00:18:43,066 --> 00:18:45,700

mae’n rhaid i’r rheolwr

ddangos ei fod yn deall sut i

293

00:18:45,700 --> 00:18:50,300

hyrwyddo tegwch, cydraddoldeb,

amrywiaeth, a chynhwysiant.

294

00:18:52,166 --> 00:18:56,600

Allwch weld y safon sefydlu

mewn ysgrifennu amlwg du.

295

00:18:56,600 --> 00:18:57,666

Ac yn y colofn nesaf,

296

00:18:57,700 --> 00:18:59,933

ehangder a dyfnder y safon honno.

297

00:19:00,533 --> 00:19:02,033

Mae yna dri maes yma.

298

00:19:03,133 --> 00:19:07,233

Mae’r rheolwr wedi ysgrifennu tipyn

o adborth cynhwysfawr lle maent

299

00:19:07,233 --> 00:19:11,166

wedi cwblhau’r llyfr gwaith,

wedi ysgrifennu ychydig am dan

300

00:19:11,200 --> 00:19:15,366

ddogfennau polisi, ac mae ganddynt

hefyd ychydig o gofnodion hyfforddi

301

00:19:15,366 --> 00:19:18,533

a chofnodion eu cyfarfodydd

sy’n ymdrin â’r safon hon.

302

00:19:19,633 --> 00:19:23,800

Fodd bynnag, os byddai’r rheolwr wedi

cwblhau’r gweithgaredd ar y llyfr

303

00:19:23,800 --> 00:19:29,300

gwaith, byddai hyn yn ymdrin â

ehangder a dyfnder y safonau sefydlu,

304

00:19:29,300 --> 00:19:32,566

ac felly ni fyddai wedi bod angen

ychwanegu tystiolaeth ychwanegol.

305

00:19:33,133 --> 00:19:37,133

Ond mae’n arfer da ychwanegu

cymaint â phosib i mewn yno.

306

00:19:37,433 --> 00:19:40,966

A hefyd gall fod yn ddefnyddiol

yn ystod Rhan B y fframwaith.

307

00:19:43,100 --> 00:19:46,866

Gallwch weld bod sylwadau wedi’u

gwneud gan y mentor, ac mae hyn

308

00:19:46,866 --> 00:19:50,500

yn cadarnhau bod gan y rheolwr

lawer o wybodaeth gyfredol.

309

00:19:50,900 --> 00:19:53,133

Felly mae’r ddau wedi

cymeradwyo’r safon.

310

00:19:57,800 --> 00:20:01,633

Rydym hefyd wedi creu enghraifft

o safon sefydlu ar gyfer Rhan B.

311

00:20:08,600 --> 00:20:12,500

Yn yr arddangosiad hwn,

mae’n ymdrin ag adran pedwar sy’n

312

00:20:12,500 --> 00:20:14,133

ymwneud ag arfer proffesiynol.

313

00:20:15,066 --> 00:20:18,300

Mae canlyniad dysgu pedwar yn

ymwneud â defnyddio dadansoddiad o

314

00:20:18,300 --> 00:20:23,200

ddigwyddiadau, canmoliaeth, pryderon,

a chwynion i wella’r lleoliad.

315

00:20:24,766 --> 00:20:26,866

Ar y safon sefydlu penodol yma,

316

00:20:26,900 --> 00:20:31,400

gallwch weld bod ehangder a dyfnder

y safon yma yn cwmpasu chwech maes.

317

00:20:32,366 --> 00:20:35,100

Mae’r rheolwr wedi dangos ei

dystiolaeth mewn ffordd sy’n

318

00:20:35,100 --> 00:20:38,100

rhoi trosolwg o beth maent

wedi’i wneud yn y gorffennol.

319

00:20:39,400 --> 00:20:42,400

Os byddwn i’n fentor,

byddwn yn edrych ar bolisïau’r

320

00:20:42,400 --> 00:20:46,100

lleoliad a ysgrifennwyd gan

y rheolwr a gweld sut maent

321

00:20:46,133 --> 00:20:47,500

yn eu diweddaru’n aml.

322

00:20:47,966 --> 00:20:50,500

Er enghraifft, ydyn nhw’n

defnyddio traciwr neu

323

00:20:50,533 --> 00:20:52,400

gynlluniwr i ddiweddaru’r rhain?

324

00:20:53,633 --> 00:20:57,500

Byddwn hefyd yn cael golwg ar

gyfarfodydd staff lle mae adborth

325

00:20:57,533 --> 00:20:59,100

am ddigwyddiadau yn cael eu trafod.

326

00:21:00,400 --> 00:21:04,000

Dywedodd y rheolwr fod yna

ddatganiadau, felly byddai’n hyfryd

327

00:21:04,000 --> 00:21:06,164

cael darllen y rhain.

328

00:21:06,164 --> 00:21:07,400

Unwaith eto,

329

00:21:07,433 --> 00:21:11,533

byddai'r mentor yn rhoi adborth

ar yr hyn y maent wedi ei weld

330

00:21:11,866 --> 00:21:15,066

ac yn cymeradwyo'r safon os yw'n

teimlo ei fod wedi ei fodloni.

331

00:21:16,400 --> 00:21:20,833

Unwaith y bydd yr holl safonau wedi'u

cymeradwyo gan y rheolwr a'r mentor

332

00:21:20,833 --> 00:21:25,466

dros y cyfnod hwnnw, byddant yn gallu

cymeradwyo’r dystysgrif cyflawniad.

333

00:21:28,866 --> 00:21:32,666

Am siwrne, ond llwyddiant

enfawr i fod yn falch ohono.

334

00:21:33,033 --> 00:21:36,500

Dylid cadw’r dystysgrif cwblhau

gyda’r logiau llwyddiant wedi’u

335

00:21:36,500 --> 00:21:40,600

cwblhau a gellir eu defnyddio i

ddangos tystiolaeth bod y rheolwr

336

00:21:40,600 --> 00:21:44,066

wedi cwblhau ei sefydlu yn

llwyddiannus neu’n gymwys i

337

00:21:44,066 --> 00:21:46,233

weithio fel rheolwr Dechrau’n Deg,

338

00:21:46,233 --> 00:21:50,766

os oes ganddynt y cymhwyster Ymarfer

Uwch QCF neu gradd derbyniol

339

00:21:50,766 --> 00:21:52,173

ar y fframwaith cymhwysedd.

340

00:21:52,173 --> 00:21:58,766

Gellir ei storio yn y ffeil rheolwr yn barod ar gyfer

arolygiad Arolygiaeth Gofal Cymru.

341

00:22:00,966 --> 00:22:05,333

Felly, yn anffodus, mae hyn yn dod

â ni at ddiwedd y cyflwyniad heddiw,

342

00:22:05,866 --> 00:22:08,775

ac os ydych chi’n sganio’r cod QR

ar y sleid yma,

343

00:22:08,775 --> 00:22:13,466

bydd yn mynd â chi’n uniongyrchol i’n holl

fframweithiau sefydlu ar ein gwefan.

344

00:22:13,966 --> 00:22:18,300

Mae angen i chi ddewis y ffenest Fframwaith

Sefydlu Cymru Gyfan ar gyfer rheolwyr

345

00:22:18,300 --> 00:22:21,800

blynyddoedd cynnar a gofal plant

er mwyn i chi gael mynediad at

346

00:22:21,800 --> 00:22:23,633

yr holl ddogfennau ac adnoddau.

347

00:22:24,400 --> 00:22:25,733

Plis cysylltwch hefo ni.

348

00:22:25,766 --> 00:22:28,700

Byddem wrth ein bodd yn gwybod os

oes gennych chi unrhyw gwestiynau

349

00:22:28,900 --> 00:22:33,000

neu adborth penodol am y fideo hwn,

neu os ydych chi eisiau rhywfaint o

350

00:22:33,000 --> 00:22:36,933

gefnogaeth gyda'ch gwaith gweithredu,

peidiwch ag oedi cyn anfon

351

00:22:36,966 --> 00:22:37,900

ebost atom.

352

00:22:39,000 --> 00:22:42,633

Felly, fe wnai adael chi rŵan gyda

> phob lwc enfawr gyda’r fframwaith.
>
> 353
>
> 00:22:42,666 --> 00:22:44,700
>
> Diolch yn fawr iawn am wrando.
>
> 354
>
> 00:22:44,700 --> 00:22:45,309
>
> Ta ra rwan.

Bydd y canllawiau fideo yn ategu’r dogfennau canllaw sydd gennym ni eisoes ond byddwn ni'n mynd â chi drwy broses gam wrth gam o:

- Beth yw'r AWIF ar gyfer rheolwyr blynyddoedd cynnar a gofal plant
- Pam fod gennym AWIF ar gyfer rheolwyr blynyddoedd cynnar a gofal plant
- Pwy ddylai gwblhau'r AWIF ar gyfer rheolwyr blynyddoedd cynnar a gofal plant
- Rolau'r rheolwr a'r person a enwebwyd wrth gwblhau'r AWIF ar gyfer rheolwyr blynyddoedd cynnar a gofal plant
- Sut i gwblhau'r AWIF ar gyfer rheolwyr blynyddoedd cynnar a gofal plant.

Nodwch ein bod ni'n cyfeirio at 'bersonau a enwebwyd' fel 'mentoriaid' yn y fideo yma.